# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 17 Ionawr 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 17 Medi 2021 (Tudalennau 3 - 12)**

**5. Materion yn Codi**

**6. Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau uchel drwy ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Tudalennau 13 - 14)**

**7. Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol:**

(i) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 15 - 24)

(i) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 25 - 34)

(i) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Tref Cei Newydd (Tudalennau 35 - 44)

(i) Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 45 - 52)

(i) Cynghorydd Peter Davies MBE, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 53 - 62)

**8. Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021 (Tudalennau 63 - 80)**

**9. Materion y Cod Ymddygiad- Diweddariad ar erthyglau'r wasg (Tudalennau 81 - 82)**

**10.** **Coflyfr Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Rhif 25 (Tudalennau 83 - 90)**

**11.** **Penodi Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau - Cynllunio ar gyfer Olyniaeth (Tudalennau 91 - 92)**

**12.** **Y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a gyfeirir at y pwyllgor moeseg a safonau a chynnal gwrandawiadau (Tudalennau 93 - 106)**

**13.** **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru (Tudalennau 107 - 108)**

**14.** **Pwyllgor Moeseg a Safonau: Ddisgrifiadau Rôl a Manyldeb Personol (Tudalennau 109 - 154)**

**15.** **Cynhadledd Safonau Cymru a gynhelir o bell ar 9/2/22**

**16.** **Hyfforddiant**

**17.** **Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

 Eitem Agenda 4

Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Gwener, 17 Medi 2021

**YN BRESENNOL:**
Mrs Caroline White (Cadeirydd) , Mr Hywel Wyn Jones, Mr John Weston a Mr Rif Winfield(Aelodau Annibynnol);
Y Cynghorydd Odwyn Davies a'r Cynghorydd Dai Mason (Aelodau Etholedig)
Y Cynghorydd Julian Evans a Gill Hopley (cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned)

**YN BRESENNOL**:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Ms Carol Edwards a'r Cynghorydd Ceredig Davies am na allent fynychu'r cyfarfod.

Bu'n rhaid i'r Cynghorydd Dai Mason adael y cyfarfod yn gynnar oherwydd apwyntiad ysbyty munud olaf.

**2 Materion Personol**

Dim.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Julian Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn y ceisiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Elizabeth Evans a gadawodd y gynhadledd fideo wrth i'r ceisiadau hyn gael eu hystyried.

**4 Trefniadaeth**

Cytunwyd, oherwydd yr angen i fod o fewn cworwm, y byddai'r ceisiadau gan y Cynghorydd Elizabeth Evans yn cael eu hystyried yn gyntaf i aros i Mr Rif Winfield ymuno â'r cyfarfod dros y ffôn ac i'r Cynghorydd Julian Evans adael y cyfarfod; gan ei fod wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu. Cytunwyd hefyd y byddai pob cais arall am ollyngiad yn cael ei ystyried yn dilyn y cais hwn, cyn ystyried y cofnodion.

**5 Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 16 Medi 2021 gan y Cynghorydd Elizabeth Evans i siarad yn unig ar Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron (i gynnwys harbwr Aberaeron a Phwll Cam,

Aberaeron). Mae mam y Cynghorydd Evans yn byw yn Stryd y Farchnad, Aberaeron. Mae ei chartref yn edrych yn uniongyrchol dros y maes parcio ger Pwll Cam. Mae teulu’r Cynghorydd Evans hefyd yn berchen ar adeilad yn Rhif 18 Stryd y Farchnad, Aberaeron – nid oes ganddi incwm ohono ac nid oes ganddi dim rhanberchnogaeth o’r eiddo.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei chais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans adael y gynhadledd fideo er mwyn i’r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd; (rheoliad 2 (d) ac (e) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**6 Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Tref Aberaeron**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 16 Medi 2021 gan y Cynghorydd Elizabeth Evans i siarad yn unig ar Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron (i gynnwys harbwr Aberaeron a Phwll Cam, Aberaeron). Mae mam y Cynghorydd Evans yn byw yn Stryd y Farchnad, Aberaeron. Mae ei chartref yn edrych yn uniongyrchol dros y maes parcio ger Pwll Cam. Mae teulu’r Cynghorydd Evans hefyd yn berchen ar adeilad yn Rhif 18 Stryd y Farchnad, Aberaeron – nid oes ganddi incwm ohono ac nid oes ganddi dim rhanberchnogaeth o’r eiddo.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais ac atebodd gwestiynau ynghylch ei chais.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans adael y gynhadledd fideo er mwyn i’r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd; (rheoliad 2 (d) ac (e) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

7 **Y Cynghorydd Ceredig Davies - Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 06 Medi 2021 gan y Cynghorydd Ceredig Davies i siarad a phleidleisio ar addasiadau i fynediad i gerddwyr a cherbydau i ganol tref Aberystwyth gan mai ef yw perchennog y siop Mona Liza, 22 Stryd Fawr, Aberystwyth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies i siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol (rheoliad 2 (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

8 **Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Calon Tysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Calon Tysul. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

9 **Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Calon Tysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Calon Tysul. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad

2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**9 Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Llandysul. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**10 Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Llandysul. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis

**11 Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Pontweli Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar Landysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf.  Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Bwrdd Rheoli fel Cyfarwyddwr. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau

lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**12 Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Pontweli Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 31 Awst 2021 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar Landysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Bwrdd Rheoli fel Cyfarwyddwr. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**13 Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021**

PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 yn amodol ar ddiwygio'r canlynol:-
(i)" is" i "his" yng nghofnod Saesneg S1 ac ychwanegu bod y diweddar Mrs Anne Winfield hefyd wedi bod yn gadeirydd y pwyllgor; a
(ii) i gael gwared â'r cyfeiriad ar S5 bod y Cynghorydd Odwyn Davies wedi nodi y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod "ar y pwynt hwn a chamodd John Weston i lawr i sicrhau cworwm" gan fod hyn yn anghywir

**Materion sy'n codi**
Cofnod S4- Adran 62 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad – Dywedwyd hyd yma nad oedd yr ymgynghoriad wedi dod i law ar adran hon y Ddeddf.

Cofnod S9- Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021Rhoddwyd ystyriaeth i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 – Dywedwyd bod yr ymgynghoriad wedi cau ar 06 Medi 2021. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi dosbarthu sylwadau i aelodau'r pwyllgor gan ddweud y dylai fod yn orfodol i Aelodau Cyfetholedig gytuno i'r Cod Ymddygiad, ac nid yn ddewisol.

Cofnod S15 cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cymeradwyo penodiadau'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn unol â hynny

**14 Adolygiad o'r protocol Datrys Anghydfodau Lleol**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Adolygu'r Protocol Datrys Anghydfodau Lleol. Dywedwyd y gofynnwyd i'r awdurdodau, mewn cyfarfod diweddar o Rwydwaith y Swyddogion Monitro, rannu eu Gweithdrefn Datrys Lleol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai hyn yn rhoi cyfle i gymharu a chyferbynnu pob Gweithdrefn Datrys Lleol gyda'r bwriad o'u hadolygu.

Bwriadwyd i'r Weithdrefn Datrys Leol eistedd ochr yn ochr â'r Cod, gan alluogi delio yn gyflym ac yn effeithiol ag ymddygiad na fydd o bosibl yn cyrraedd trothwy'r atgyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rhoddwyd ystyriaeth i Weithdrefn Datrys Lleol a siart lif Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd. Dywedwyd bod Un Llais Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned i'w cefnogi gyda'r broses ddatrys leol

Dywedwyd y byddai canlyniadau'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

CYTUNWYD:
(i) i nodi'r protocol a gyflwynwyd;
(ii) i gael gwared â'r llinell fel gydag "aelodau amhleidiol neu heb gysylltiad" ym mharagraff 3.6 protocol Ceredigion
(iii) bod y Cadeirydd yn cysylltu ag Un Llais Cymru ynghylch y datganiad yn eu canllawiau mewn perthynas â'r materion y mae'n rhaid eu

hatgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys "Cwynion blinderus, maleisus neu wamal"; gan fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn dweud wrth Gynghorau nad oedd am weld cynnydd yn y math hwn o achosion;
(iv) bod y Swyddog Monitro yn cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y mater a godwyd yn (iii)

**15 Canllawiau diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad**

Dywedwyd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi rhyddhau dwy ddogfen Ganllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned/Tref ar 5ed Chwefror 2021. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymateb i'r ymgynghoriad trwy sylwadau trwy e-bost a gweithdy a gynhaliwyd ar 4ydd Mawrth 2021. Rhannwyd y canllawiau drafft hefyd gydag arweinwyr y grwpiau. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, Arweinwyr Grwpiau a'r Swyddog Monitro.

Mae'r canllawiau terfynol ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned/Tref bellach wedi'u cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhannwyd y canllawiau a'r crynodeb o'r newidiadau gydag arweinwyr grwpiau, Cynghorwyr Sir a chlercod Cynghorau Tref a Chymuned.

Ystyriwyd Crynodeb o Adroddiad yr Ymgynghoriad ar Ganllawiau Diwygiedig ar God Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol hefyd.

CYTUNWYD i nodi'r canllawiau er gwybodaeth.

**16 Coflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, nodwyd bod Coflyfr 24 wedi'i gyhoeddi ar ôl cyhoeddi adroddiadau'r agenda, ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr agenda hon.

CYTUNWYD:
(i) i nodi coflyfr 24 er gwybodaeth;
(ii) i nodi pryder y Pwyllgor y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod â chynigion cryfach ar yr achosion y maent yn eu hystyried; gan fod nifer yn argymhellion ac nid yn amodau; hefyd dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fynd ar drywydd yr argymhellion hyn e.e. a oedd hyfforddiant wedi'i gwblhau

(iii) y byddai'r Fframwaith Moesegol yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'w ystyried

**17 Diweddariad ar faterion y Cod Ymddygiad - Diweddariad ar erthyglau diweddar y wasg**

CYTUNWYD i nodi'r erthygl a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**18 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol sydd wedi'i sefydlu i benderfynu ar doriadau honedig yn erbyn Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Chymuned, Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru. Wedi'i atodi mae'r Adroddiad diweddar ar Benderfyniad mewn perthynas â'r Cynghorydd David Poole, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Natur yr honiad oedd torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1) a 14(1)(a) Cod Ymddygiad y Cyngor.  Penderfyniad y tribiwnlys oedd bod y Cynghorydd Poole wedi'i wahardd dros dro am 5 mis.

CYTUNWYD
(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth; a
(ii) i nodi bod holl faterion Panel Dyfarnu Cymru bellach yn cael eu cylchredeg i Arweinydd pob Plaid er gwybodaeth oherwydd eu cyfrifoldebau newydd y flwyddyn nesaf mewn perthynas â gofyniad safonau uchel Aelodau ei grŵp.

**19 Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus - Llythyr Blynyddol data 2020/21**

Er gwybodaeth, cafwyd yr ystadegau canlynol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch nifer y cwynion a gaewyd ynghylch cod ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion a nifer y cwynion a gafwyd ynghylch Cynghorau Tref a Chymuned.

CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**20 Hyfforddiant**

Dywedwyd y canlynol:-

- Roedd y Cadeirydd i fod i gael adborth gan y Cynghorydd Hazel Thomas, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanwenog ar yr hyfforddiant a gawsant yn ddiweddar gan Mr Hywel Jones
- Byddai'r ddau Aelod Annibynnol newydd yn cael hyfforddiant ddydd Llun

- Y byddai Aelodau'r Cyngor Sir yn cael hyfforddiant Diogelu Data/Cydraddoldeb a thorri'r Cod Ymddygiad oherwydd y wybodaeth y gellid o bosibl ei rhoi ar wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook. Byddai'r hyfforddiant hwn hefyd yn cael ei gynnig yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022
- Y gellid cynnwys y deunydd hyfforddi a roddir ar Ddiogelu Data/Cydraddoldeb gydag unrhyw hyfforddiant Cod Ymddygiad yn y dyfodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
- Disgwylid eglurhad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fyddai'r cyflwyniad a roddwyd ar hyfforddiant y Cod Ymddygiad yn dilyn yr etholiadau yn 2017 yn cael ei newid cyn yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn dilyn etholiadau Mai 2022
- Y gallai holl Aelodau'r Pwyllgor nawr roi hyfforddiant dwyieithog i Gynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad gan fod gan bob un ohonynt brofiad o roi hyfforddiant
- Y byddai'r sesiynau hyfforddi bellach yn cael eu trefnu gyda'r Pwyllgor i ystyried materion penodol o fewn yr agenda Moeseg a Safonau cyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**21 Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-
(i) bod manyleb y swydd ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 12 Hydref, cytunwyd y byddai'r rhain hefyd yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf i'w hystyried;
(ii) yr angen i newid dyddiad y cyfarfod nesaf o 11 Hydref 2021 i ddyddiad ym mis Tachwedd 2021;
(iii) bod Arweinwyr y Pleidiau yn mynychu'r cyfarfod ym mis Ionawr 2022 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am eu dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan aelodau eu grwpiau; a
(iv) bod Fforwm Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael ei roi fel eitem sefydlog ar yr agenda, roedd disgwyl i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ym mis Tachwedd 2021.

**22 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Fe wnaeth y Cadeirydd gyfleu diolch y Pwyllgor i Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor Moeseg a Safonau ers eu penodi. Diolchodd y ddau i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu gwaith a'u cymorth yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 1xxxx**

**Cadeirydd:________**

**Dyddiad:__________**

Eitem Agenda 6

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **17 Ionawr 2022** |
| **Teitl:** | **Y diweddaraf gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol am y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Nodi'r dyletswyddau newydd y mae Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn eu rhoi i arweinwyr gwleidyddol a'r pwyllgor safonau.** |

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi dyletswyddau newydd i arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r pwyllgorau safonau. Mae Atodiad A yn cynnwys yr adrannau perthnasol, sef adran 62 ac adran 63.

O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, (Adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000) mae'n datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a bod yn rhaid iddo gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor.

Yn adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd swyddogaethau penodol—

(a) monitro i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1), a

(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Mae adran 63 yn mewnosod y gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Yn ogystal â disgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan adran 54 neu 56. Rhaid i adroddiad blynyddol gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnwys asesiad y pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A (1). Caiff yr adroddiad blynyddol hefyd gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

**Sefyllfa Bresennol**

Gwahoddir arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion bob blwyddyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y dulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion.

Bellach mae'n angenrheidiol i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol arnynt i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r grŵp; a sut i gydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor, a sut y gellir dangos hyn.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i ddiweddaru'r Pwyllgor am eu dulliau a'u hanghenion arfaethedig er mwyn hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau, a sut y gellir dangos hyn. |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 13 Rhagfyr 2021 |
| **Acronymau:** | |

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

# CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

## Gwybodaeth

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurfleni am bob cais.

## Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
**Ffôn: 01545 570881**

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk / MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

## 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Daniel John Potter

Cyngor:

Sir: ☒ Tref/Cymuned: ☐

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Eich cyfeiriad: 8 Cwm Ifor, Cei Newydd

Cod post: SA45 9QW

Rhif(au) ffôn: 07971 101811

Cyfeiriad e-bost:
Dan.Potter@ceredigion.gov.uk

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod? Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod? Mae'r materion a drafodir yn ymwneud â'r harbyrau ym Mhwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr Ceinewydd a gynhelir cyn ac ar ôl y tymor (mis Mawrth a mis Hydref). Sefydlwyd y Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau gan y Cyngor ym 1996 fel fforwm ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y tri harbwr sef Aberystwyth, Aberaeron a Cheinewydd. Caiff y cyfarfodydd eu cadeirio gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Harbyrau, sef y Cynghorydd Dafydd Edwards.

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

| |
|---|
| Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef: (1) Rwy'n berchen ar 'New Quay Marine' sef busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn fy nghyflogi'n flynyddol i gynnal yr ardal nofio fel contractwr ardal Nofio Diogel. Rwyf hefyd yn prydlesu dwy angorfa wrth Gyngor Sir Ceredigion ac rwy'n berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Rwyf hefyd yn derbyn £40 yr wythnos fel llywiwr cwch gyda Bad Achub Ceinewydd / Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). |
| Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned) (2)<br><br>**Sir - Cyngor** ☒ **Sir – Cabinet** ☐<br><br>**Sir - Pwyllgor** ☐ **Tref / Cymuned** ☐<br><br>**Arall (rhowch fanylion)** ☐ ______________________ |

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

I ba baragraff o’r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae’r buddiant hwn yn berthnasol?
**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; ☒

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl; ☒

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; ☐

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na’r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; ☐

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o’r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod; ☐

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; ☐

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o’r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno; ☐

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; ☒

(ix) unrhyw — ☒

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy; ☐

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef; ☒

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i); ☐

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno; ☐

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu ☐

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo, ☐

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a ☐

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw. ☐

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)** Mae gan Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr Ceinewydd faterion sefydlog sy'n cael eu trafod ymhob cyfarfod megis y cynnig i ymestyn y pier, cyflenwad y cregyn sydd ar y traeth, materion yn ymwneud â'r clwb hwylio, llithrfa lithrig, yr ysgol ar waelod y pier, harbwr anniben, diesel ar ddŵr wyneb, sbwriel ar y traeth / chwyn, cyfleusterau cyhoeddus ar y traeth. Materion cyffredinol yw'r rhain sy'n cael eu trafod a'u cyfeirio at y swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor Sir i'w datrys. Hoffwn fod yn rhan o'r Pwyllgor er mwyn clywed barn a phryderon defnyddwyr eraill yr harbwr; a chyfrannu at y drafodaeth pan fo'n briodol. Pwyllgor ymgynghorol yw'r Pwyllgor ac felly nid yw'n gwneud unrhyw benderfyniadau dim ond argymhellion.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae **Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001** yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

| | |
|---|---|
| (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; | ☐ |
| (b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys; | ☐ |
| (c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai analluogrwydd aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio; | ☐ |
| (d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; | ☐x |
| (e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☐x |
| (f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; | ☐x |
| (g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol | ☐ |

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

| | |
|---|---|
| (h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu | ☐ |
| (i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu. | ☐ |

## 5. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD - MWY O WYBODAETH

Nodwch isod y rhesymau pam rydych chi'n credu y dylai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad yn yr achos hwn (hynny yw, esboniwch pam rydych chi'n credu y bodlonwyd un neu fwy o'r meini prawf ar gyfer rhoi gollyngiad)
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Yn sgil fy ngwybodaeth eang fel defnyddiwr harbwr yn harbwr Ceinewydd, hoffwn rannu a chyfrannu at unrhyw drafodaethau ynghylch yr harbwr yng Ngheinewydd. Yr harbwr a'r traeth sy'n gwneud Ceinewydd y lle ydyw; ac os bydd materion yn ymwneud â'r harbwr a'r traeth yn cael eu trafod, hoffwn fod yn bresennol fel Cynghorydd Sir i glywed y materion a phryderon defnyddwyr eraill yr harbwr / rhanddeiliaid sy'n bresennol sef yr RNLI, Teithiau Cychod Ceinewydd, Regata Bae Ceredigion, Clwb Hwylio Ceinewydd, Harbwrfeistr Cynorthwyol, Pysgotwyr, a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Ceinewydd.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 6. CAIS

A ydych chi'n gwneud cais am ollyngiad i siarad yn unig, ynteu i siarad a phleidleisio?

Siarad yn Unig: ☐ x

Siarad a Phleidleisio: ☐

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Rhowch reswm dros hyn:

Er mwyn i mi fedru rhannu fy arbenigedd am faterion sy'n ymwneud â'r harbwr gyda'r Pwyllgor.

## 7. HYD Y GOLLYNGIAD

Am ba hyd y gofynnir am y gollyngiad hwn?

**Penodol:**

Cyfarfod(ydd) Penodol:☐

Nodwch ddyddiad(au)'r cyfarfod(ydd): ______Mawrth a Hydref 2021_________________________

**Cyffredinol:**

Chwe mis: ☐ Deuddeg mis: ☐

## 8. DATGANIAD

Yr wyf yn gofyn am ollyngiad ynglŷn â'r mater uchod.

**Yr wyf yn cadarnhau fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth.**

Llofnod: Dan Potter

Dyddiad: 12 / 11 /2021

**Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i:**

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Ffôn: 01545 570881

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

**Gwybodaeth**

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurfleni am bob cais.

## Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
**Ffôn: 01545 570881**

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk / MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD**

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

| **1. EICH MANYLION** |
|---|
| Eich enw llawn: Daniel John Potter |
| Cyngor:<br>Sir: ☒ Tref/Cymuned: ☐<br>Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion |
| Eich cyfeiriad: 8 Cwm Ifor, Cei Newydd<br>Cod post: SA45 9QW |
| Rhif(au) ffôn: 07971 101811 |
| Cyfeiriad e-bost:<br>Dan.Potter@ceredigion.gov.uk |

| **2. MANYLION EICH BUDDIANT** |
|---|
| Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod? Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?<br>Materion yn ymwneud â'r harbwr a'r traeth yng Nghei newydd. |

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef: [1]Rwy'n berchen ar fusnes Cychod a morol yng Nghei Newydd sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn fy nghyflogi'n flynyddol i fod yn gontractwr ardal nofio'n diogel. Mae hefyd gennyf dwy angorfa ar brydles oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ac rwy'n berchen ar sied y tu allan i'r orsaf bad achub ac hen orsaf gwylwyr y glannau yn Paragon. Rwyf hefyd yn derbyn £40 yr wythnos fel llywiwr cwch Bad Achub /RNLI Ceinewydd

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned) [2]

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sir - Cyngor** | ☒ | **Sir – Cabinet** | ☐ |
| **Sir - Pwyllgor** | ☐ | **Tref / Cymuned** | ☐ |
| **Arall (rhowch fanylion)** | ☐ | ____________________ | |

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?
**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; ☒

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl; ☒

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; ☐

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; ☐

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod; ☐

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; ☐

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno; ☐

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; ☒

(ix) unrhyw — ☒

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy; ☐

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef; ☒

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i); ☐

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno; ☐

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu ☐

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo, ☐

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na’r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a ☐

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw. ☐

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

O ganlyniad i'm gwaith rwy'n aml iawn yn bresennol yn yr harbwr gyda defnyddwyr eraill yr harbwr megis cynrychiolwyr o'r clwb hwylio, perchnogion cychod teithio, pobl o'r ganolfan ddŵr ayb . Hoffem gyflwyno eu sylwadau a'u pryderon / problemau parthed yr harbwr i'r Cyngor Sir a chyrff allanol eraill megis Llywodraeth Cymru. Os bydd unrhyw brosiectau neu newidiadau ayb sy'n cynnwys yr harbwr hoffem fedru cyfrannu fy arbenigedd a bwydo'r wybodaeth yma yn ôl i'r gymuned rwy'n ei chynrychioli. Yr harbwr yw'r prif ased i'r gymuned rwy'n ei chynrychioli ac o'r herwydd mae'n naturiol yr hoffem fod yn rhan o bethau.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae **Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001** yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

| | |
|---|---|
| (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; | ☐ |
(l) Mae 'y Swyddog Safonau' yn golygu'r swyddog sydd bryd hynny wedi'i benodi gan y Cyngor i gynorthwyo â gwaith y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**4) Crynodeb o'r weithdrefn**

1) Dan **adran 69** y Ddeddf, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw honiad o dorri'r Cod Ymddygiad a wneir yn erbyn aelodau neu aelodau cyfetholedig (neu gyn-aelodau neu gyn-aelodau cyfetholedig) o'r Cyngor neu unrhyw gyngor cymuned yn ardal y Cyngor.

2) Dan **adran 70(4)** y Ddeddf, pan fo'r Ombwdsmon yn dod ag ymchwiliad o'r fath i ben cyn ei gwblhau:

a) gall gyfeirio'r materion dan sylw yn yr ymchwiliad at y Swyddog Monitro.
b) Yna bydd y Swyddog Monitro yn ymchwilio i'r materion hynny yn unol â'r Rheoliadau, cyn cyhoeddi adroddiad, a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol. Gweler y weithdrefn yn fanwl yn adran 5) isod.

3) Dan **adran 71(2)** y Ddeddf, bydd yr Ombwdsmon, pe bai'n penderfynu y buasai'n briodol gwneud hynny ar ôl cynnal ymchwiliad, yn gwneud y canlynol:
a) llunio adroddiad ynghylch canlyniadau'r ymchwiliad ac yn ei anfon at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.
b) Yna bydd y Swyddog Monitro yn ystyried adroddiad yr Ombwdsmon yn unol â'r Rheoliadau, cyn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol.
c) Gweler y weithdrefn yn fanwl yn adran 6) isod.

d) Yna bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwneud un o'r dyfarniadau cychwynnol isod (Rheoliad 7):

i) nid oes tystiolaeth o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, neu
ii) dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

e) Pan roddir gwahoddiad i Aelod wneud sylwadau, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnal gwrandawiad i ystyried unrhyw ymateb gan yr Aelod.

**Dyfarniadau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**

(1) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, rhaid i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (dan Reoliad 9(1)) ddyfarnu:

i) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac felly nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;
ii) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;
iii) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, a dylai gael ei geryddu; neu
iv) bod yr Aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn-aelod neu gyn-aelod cyfetholedig) wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i awdurdod am gyfnod heb fod yn hwy na chwe mis

a gweithredu yn unol â'r dyfarniad hwnnw.

(2) Pan fydd tribiwnlys apelau a dynnir o blith aelodau Panel Dyfarnu Cymru yn gwneud argymhelliad y dylid gosod cosb wahanol (Rheoliad 12), rhaid i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyfarnu hefyd a ddylai gadarnhau ei ddyfarniad gwreiddiol, neu dderbyn yr argymhelliad.

**5) Ymchwiliadau gan y Swyddog Monitro (a gyfeiriwyd dan adran 70(4) y Ddeddf)**

1) Pan fo'r Ombwdsmon yn dod â'i ymchwiliad i ben cyn ei gwblhau ac yn cyfeirio'r materion sydd dan sylw at y Swyddog Monitro dan adran 70(4) y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Swyddog Monitro:-

   a. gynnal ymchwiliad; a
   b. llunio adroddiad, a gwneud argymhellion i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor fel y bo'n briodol.

2) Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliad yn unol â'r Rheoliadau, a gall ddilyn unrhyw weithdrefnau y mae'n credu eu bod yn briodol dan amgylchiadau'r achos dan sylw.

3) Ar ôl cynnal ymchwiliad, mae'n rhaid i'r Swyddog Monitro:

   a. lunio adroddiad ynghylch canlyniadau ei ymchwiliad, a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y bo'n briodol,
   b. anfon copi o'r adroddiad at yr Aelod, a
   c. chymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad at yr Achwynydd.

4) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried adroddiad y Swyddog Monitro ynghyd ag unrhyw argymhellion, yn unol â'r weithdrefn a nodir isod.

**6) Ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon (a gyfeiriwyd dan adran 71(2) y Ddeddf)**

1) Pan fo'r Ombwdsmon yn cwblhau ei adroddiad ac yn anfon copi at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor dan adran 71(2) y Ddeddf, bydd yn rhaid i'r Swyddog Monitro:
   a) ystyried adroddiad yr Ombwdsmon, a
   b) gwneud argymhellion i Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor fel y bo'n briodol.

2) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro yn unol â'r weithdrefn a nodir isod.

**7) Cam 1 – Y Pwyllgor Moeseg a Safonau – Gwrandawiad ar gyfer gwneud y Dyfarniad Cychwynnol**

1) Ar ôl i'r Swyddog Monitro:

   a. lunio adroddiad yr ymchwiliad yn unol â pharagraff 10; neu
   b. ystyried adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon yn unol â pharagraff 12

bydd yn trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau cyn gynted ag y bo modd.

Anfonir copi o adroddiad yr ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro (os oes rhai), at bob aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

2) Rhoddir hysbysiad ynghylch amser a lleoliad y cyfarfod yn unol â Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau.

3) Os mai'r Ombwdsmon fydd yn darparu adroddiad yr ymchwiliad, bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, fel Swyddog Cynghori.

4) Os mai'r Swyddog Monitro fydd yn darparu adroddiad yr ymchwiliad, bydd y Swyddog Safonau neu rywun arall addas a chymwys yn cynghori'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, fel Swyddog Cynghori.

5) Cyfyngir trafodaethau Gwrandawiad Dyfarniad Cychwynnol y Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r canlynol:
   i) ystyried adroddiad yr ymchwiliad
   ii) ac unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro (os oes rhai), a
   iii) dod i un o'r dyfarniadau cychwynnol isod:-

(a) nad oes dim tystiolaeth o fethu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, neu
(b) dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

**9) Cam 2 - Ar ôl cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

1) Pan benderfyna'r Pwyllgor Moeseg a Safonau nad oes tystiolaeth o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, bydd y Swyddog Safonau yn hysbysu'r Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon yn unol â hynny. Gweler 8 (a) uchod.

2) Pan benderfyna'r Pwyllgor Moeseg a Safonau y dylid gwahodd yr Aelod i gyflwyno sylwadau, bydd y Swyddog Safonau yn hysbysu'r Aelod ynghylch dyfarniad cychwynnol y Pwyllgor a'r weithdrefn y mae'r Pwyllgor yn argymell ei mabwysiadu wrth dderbyn ac ystyried unrhyw sylwadau y dymuna'r Aelod eu cyflwyno. Gweler 8(b) uchod a Cham 3 isod.

**Cam 3 - Paratoi ar gyfer y gwrandawiad i ystyried sylwadau'r Aelod**

1) A) Bydd y Swyddog Safonau, gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, yn ysgrifennu at yr Aelod i gynnig dyddiad ar gyfer gwrandawiad i ystyried unrhyw sylwadau y dymuna'r Aelod eu cyflwyno, a bydd yn gofyn i'r Aelod lenwi a dychwelyd holiadur ymhen 14 diwrnod, gan gadarnhau'r naill ffordd neu'r llall a fydd:

(a) yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawiad;

(b) yn dymuno cyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ac os felly, dylai'r Aelod gynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn yr ymateb;

(c) yn anghytuno ag unrhyw rai o'r canfyddiadau ffeithiol a geir yn adroddiad yr ymchwiliad, ac os felly, dylai'r Aelod nodi pa faterion penodol y mae'n anghytuno â hwy, a'r rhesymau dros hynny;

(d) yn dymuno cynrychioli ei hun, neu gael cynrychiolydd cyfreithiol neu unrhyw un arall i'w gynrychioli yn y gwrandawiad, yn unol â'r Rheoliadau;

(e) yn dymuno rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig;

(f) yn dymuno galw tystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac os felly dylai nodi'r tystion hynny, a chadarnhau a ydynt yn dystion o ffaith neu gymeriad;

(g) yn dymuno bod unrhyw ran o'r cyfarfod yn cael ei chynnal yn breifat, ac os felly dylai esbonio'r rhesymau dros hynny;

(h) yn dymuno bod y cyhoedd yn cael eu hatal rhag gweld unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, ac os felly, dylai esbonio'r rhesymau dros hynny.

1(B) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid gofyn i'r Swyddog Ymchwilio ddod i'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad ac esbonio unrhyw faterion yn yr adroddiad hwnnw.

2) Bydd y Swyddog Safonau yn hysbysu'r Swyddog Ymchwilio ynghylch dyddiad arfaethedig y gwrandawiad, ac yn gofyn a fydd yn bresennol yn y gwrandawiad neu beidio. Dylid cadw dau ddyddiad amgen wrth gefn rhag ofn.

3) Bydd y Swyddog Safonau yn anfon copi o ymateb yr Aelod dan baragraff 20 at y Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn i'r swyddog hwnnw anfon cadarnhad ysgrifenedig ymhen 7 diwrnod i ddatgan:

(a) a oes ganddo unrhyw sylwadau ynglŷn ag ymateb yr Aelod;

(b) a yw'n dymuno cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;

(c) a yw'n dymuno galw tystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, ac os felly dylai nodi'r tystion hynny;

(d) a yw'n dymuno bod unrhyw ran o'r cyfarfod yn cael ei chynnal yn breifat, os felly dylai nodi'r rhesymau dros hynny;

(e) a yw'n dymuno bod y cyhoedd yn cael eu hatal rhag gweld unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, os felly dylai nodi'r rhesymau dros hynny.

4) Bydd y Swyddog Safonau yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio o leiaf 14 diwrnod cyn y gwrandawiad er mwyn:

(a) cadarnhau dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) rhoi crynodeb o'r honiad(au);

(c) rhoi braslun o brif ffeithiau'r achos y mae pawb yn gytûn yn eu cylch;

(d) rhoi braslun o'r prif ffeithiau nad yw pawb yn gytûn yn eu cylch;

(e) nodi a fydd yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol yn y gwrandawiad neu'n cael eu cynrychioli;

(f) rhestru unrhyw dystion y gofynnir iddynt roi tystiolaeth;

(g) amgáu adroddiad yr ymchwiliad, unrhyw ddogfennau perthnasol, ymateb yr Aelod ac unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio;

(h) rhoi braslun o weithdrefn arfaethedig y gwrandawiad;

(i) gofyn iddynt gadarnhau a ydynt yn bwriadu dod i'r gwrandawiad; a

(j) darparu'r dystiolaeth y maent yn bwriadu dibynnu arni.

5) Bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei hanfon at aelodau'r Pwyllgor, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio cyn y gwrandawiad:

- Adroddiad y Swyddog Ymchwilio

- Ymateb yr Aelod
- Unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio
- Amlinelliad o'r prif ffeithiau sydd wedi'u cytuno / heb eu cytuno
- Rhestr o dystion
- A fydd yr Aelod yn bresennol yn y gwrandawiad ac a fydd yn cael ei gynrychioli gan rywun arall
- Y weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad.

**Cam 4 – Y Weithdrefn ar gyfer y Gwrandawiad**

**Egwyddorion**

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau:

1)

- yn unol â gofynion cyfiawnder cynhenid, gynnal y cyfarfod ym mha bynnag fodd y mae'n ystyried i fod fwyaf addas ar gyfer sicrhau eglurder ynghylch y materion sydd gerbron, ac yn gyffredinol er mwyn cynnal y gwrandawiad yn gyfiawn.
- Rhaid i'r Pwyllgor, cyn belled ag y gwêl yn briodol, geisio osgoi bod yn ffurfiol ac yn anhyblyg wrth gynnal y gwrandawiad.
- Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu ynghylch tystiolaeth ffeithiol yn ôl yr hyn sy'n debygol.
- Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw feini prawf sydd ar gael i gynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

2) Gall rhywun gynrychioli'r Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio neu ddod gyda hwy i'r cyfarfod os ydynt â chymwysterau cyfreithiol neu beidio, ond gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau wrthod caniatáu unigolyn penodol i gynorthwyo neu gynrychioli rhywun yn y gwrandawiad, pe bai'r Pwyllgor yn fodlon fod yno reswm da dros wneud hynny.

3) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau gael cyngor cyfreithiol gan Swyddog y mae'r Cyngor wedi'i benodi at y diben hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, neu wrth iddynt ystyried y canlyniad. Bydd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor yn cael ei rannu â'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydynt yn bresennol.

4) Cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus oni bai bod y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn argyhoeddedig fod yno reswm da dros eithrio'r cyhoedd.

5) Y bwriad yw y bydd pob parti yn y gwrandawiad yn gallu cyfrannu gyda dealltwriaeth lawn o'r materion sydd dan ymchwiliad, gan sicrhau bod y gwrandawiad yn deg, tryloyw a diduedd.

6) Pennir gweithdrefn y cyfarfod isod, yn amodol ar unrhyw newidiadau y creda'r Cadeirydd ei bod yn briodol eu gwneud er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ac effeithlon.

<u>Rhagarweiniad</u>

1) Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyflwyno’r bobl hynny sy’n bresennol ac yn egluro dull a threfn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw drefniadau corfforol.

Cam cyntaf: Materion rhagarweiniol o drefn

2) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn datrys unrhyw faterion neu anghydfod ynghylch y modd y dylai’r gwrandawiad fynd yn ei flaen, sydd heb eu datrys fel rhan o’r weithdrefn cyn y gwrandawiad. Gan gynnwys y canlynol:
   - A ddylid gwahardd y cyhoedd neu’r wasg rhag dod i’r gwrandawiad neu ran ohono.
   - Unrhyw faterion newydd a godwyd ers paratoi’r agenda.
   - Os codir unrhyw dystiolaeth neu fater newydd y gallai fod wedi’i godi cyn y gwrandawiad, rhagdybir na fydd yn cael ei ganiatáu oni bai bod rheswm da dros wneud hynny.
   - A oes reswm da dros fwrw ymlaen â’r gwrandawiad yn absenoldeb unrhyw barti, y rhesymau a nodwyd dros unrhyw absenoldeb ac i fodloni ei hun fod pob parti wedi cael gwybod am ddyddiad y gwrandawiad. Fel arall, gellir penderfynu gohirio’r gwrandawiad.
   - Gwneud trefniadau ar gyfer ymdrin â’r mater yn deg, pan fo’r Pwyllgor yn fodlon fod unrhyw barti (ar ôl derbyn tystiolaeth feddygol) yn methu â bod yn bresennol ac yn debygol o fethu â bod yn bresennol am amser maith.
   - Ni chaniateir croesholi tystion. Rhaid cyfeirio’r cwestiynau drwy’r Cadeirydd.

Ail gam: Canfyddiadau Ffeithiol

3) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried a oes yno anghytundeb arwyddocaol ynghylch y ffeithiau a nodir yn adroddiad yr ymchwiliad.

4) Os oes anghytundeb ynghylch y ffeithiau:-

(a) gwahoddir y Swyddog Ymchwilio, os yw’n bresennol, i wneud unrhyw sylwadau fel y bo’r gofyn i ategu’r canfyddiadau ffeithiol a geir yn adroddiad yr ymchwiliad.

(b) gall y Swyddog Ymchwilio alw unrhyw dystion angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, a gall y Pwyllgor roi cyfle i’r Aelod herio unrhyw dystiolaeth a roddir gan unrhyw dyst y mae’r Swyddog Ymchwilio yn ei alw.

(c) yna gwahoddir yr Aelod i gyflwyno ei achos ac i wneud sylwadau i gefnogi ei fersiwn o’r ffeithiau.

(d) gall yr Aelod alw unrhyw dystion angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, a gall y Pwyllgor roi cyfle i’r

Swyddog Ymchwilio herio unrhyw dystiolaeth a roddir gan unrhyw dyst y mae'r Aelod yn ei alw.

5) Ar unrhyw adeg, gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau holi unrhyw rai o'r bobl sy'n rhan o'r gwrandawiad, neu unrhyw rai o'r tystion.

6) Pe bai'r Aelod yn anghytuno ag unrhyw ffaith berthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad, heb fod wedi crybwyll y mater ymlaen llaw, rhaid iddo ef neu hi roi rhesymau da dros beidio â chrybwyll y mater cyn y gwrandawiad. Pe bai'r Swyddog Ymchwilio yn absennol, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried a fyddai er lles y cyhoedd i barhau yn ei absenoldeb neu beidio. Ar ôl ystyried eglurhad yr Aelod am beidio â chrybwyll y mater yn gynt, gall y Pwyllgor:

(a) barhau â'r gwrandawiad, gan ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn adroddiad yr ymchwiliad;

(b) caniatáu'r Aelod i wneud sylwadau am y mater, a gwahodd y Swyddog Ymchwilio i ymateb a galw unrhyw dystion, fel y bo'r gofyn; neu

(c) gohirio'r gwrandawiad a threfnu bod tystion priodol yn cael eu galw, neu fynnu presenoldeb y Swyddog Ymchwilio os yw'n absennol.

(d) Rhoddir cyfle i'r Swyddog Ymchwilio a'r Aelod grynhoi eu hachos.

7) Ar ôl gorffen y sylwadau ynghylch materion o ffaith, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau yn breifat.
8) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi eu canfyddiadau ffeithiol.

<u>Cam tri: Penderfynu a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod</u>

9) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ar sail ei ganfyddiadau ffeithiol, yn ystyried a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.

10) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwahodd y Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau, ac ar sail canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, i nodi a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ai peidio.

11) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gwahodd yr Aelod i ymateb i sylwadau'r Swyddog Ymchwilio ac ar sail canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, i nodi a yw ef neu hi wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ai peidio.

12) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau, ar unrhyw adeg, holi unrhyw un yn y gwrandawiad ynglŷn ag unrhyw fater y maent yn ei grybwyll wrth wneud eu sylwadau.

13) Gwahoddir yr Aelod i wneud unrhyw bwyntiau perthnasol i gloi a chyflwyno unrhyw sylwadau lliniaru.

14) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau yn breifat, ac i benderfynu a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

15) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried pa gosb sydd ei hangen.

16) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi eu canfyddiadau.

Cam pedwar: Gweithredu

17) Pe bai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu nad yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn
   a) cofnodi'n ffurfiol nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant o ran yr Aelod i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac felly nid oes angen gweithredu.
   b) Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau dal ystyried a ddylid gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor er mwyn osgoi gweld sefyllfa debyg yn codi eto.

18) Pe bai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn gwahodd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau ynghylch:

(a) a ddylai'r Pwyllgor roi cosb ai peidio; ac
(b) yr hyn y dylid ei roi fel cosb.

19) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gadael yr ystafell i ystyried y sylwadau a'r cosbau yn breifat, ac yn dod i un o'r penderfyniadau isod:

(a) nid oes angen gweithredu ar sail y diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad;

(b) dylid ceryddu'r Aelod; neu

(c) dylid gwahardd yr Aelod yn llwyr neu'n rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i awdurdod am gyfnod na fydd yn hwy na chwe mis

20) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ailymgynnull a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cyhoeddi'r penderfyniad.

21) Ar ôl penderfynu, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gofyn i'r Swyddog Safonau lunio cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw a'r rhesymau dros ei wneud, ac anfon copi (gan gynnwys manylion ynghylch hawl yr Aelod i wneud apêl) at yr Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ac yn unol â'r Rheoliadau.

**Materion Amrywiol**

**a) Methu â chyflwyno sylwadau / bod yn bresennol yn y gwrandawiad**

Pe bai'r Aelod yn methu â chyflwyno sylwadau, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau:

i. oni bai ei fod yn fodlon bod yno reswm da dros y methiant, yn medru ystyried adroddiad yr ymchwiliad a phenderfynu er bod yr Aelod yn absennol; neu
ii. yn medru rhoi cyfle arall i'r Aelod gyflwyno sylwadau.

22) Pe bai unrhyw barti yn methu â bod yn bresennol mewn gwrandawiad neu'n methu â chael rhywun i'w cynrychioli yno, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, os yw'n fodlon y rhoddwyd rhybudd priodol ynglŷn â'r gwrandawiad i'r unigolyn dan sylw, ac nad oes rheswm da dros yr absenoldeb -

a. yn medru gwrando'r achos a phenderfynu er nad yw'r unigolyn yn bresennol; neu
b. yn medru gohirio'r gwrandawiad.

b) **Salwch neu Analluogrwydd**

23)Os yw'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn fodlon nad yw'r parti yn gallu dod i'r gwrandawiad oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, a bod y sefyllfa honno'n debygol o barhau am beth amser, gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau wneud unrhyw drefniadau sy'n ymddangos yn addas, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos, er mwyn ymdrin â'r mater yn deg.

**Gwahardd**

24) Bydd unrhyw waharddiad, boed yn llwyr neu'n rhannol, yn cychwyn y diwrnod ar ôl:

(a) diwedd y cyfnod pan fedr yr Aelod gyflwyno rhybudd o apêl i dribiwnlys apêl dan y Rheoliadau (hynny yw, ymhen 21 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau);

(b) derbyn hysbysiad o gasgliadau unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau;

(c) penderfyniad pellach y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl derbyn argymhelliad gan dribiwnlys apêl dan y Rheoliadau,

pa un bynnag sy'n digwydd olaf.

**Atgyfeiriad at Dribiwnlys Apêl**

25) Pan fo'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gall yr Aelod gyflwyno apêl yn

erbyn y penderfyniad i dribiwnlys apêl a ffurfir gan Banel Dyfarnu Cymru. Efallai y bydd angen caniatâd i apelio yn unol â'r Rheoliadau.

26) Gall tribiwnlys apêl gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau, cyfeirio'r mater yn ôl gan argymell bod cosb wahanol yn cael ei rhoi, neu wrthdroi'r penderfyniad.

27) Pe bai:

(a) y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad;
(b) yr Aelod yn apelio i dribiwnlys apêl a ffurfir gan Banel Dyfarnu Cymru; a
(c) bod y tribiwnlys dan sylw yn cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Moeseg a Safonau gan argymell bod cosb wahanol yn cael ei rhoi,

bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl i ystyried argymhelliad y tribiwnlys apêl, a bydd yn penderfynu a ddylai gadw at ei benderfyniad gwreiddiol, neu dderbyn yr argymhelliad.

28) Ar ôl penderfynu, bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn gofyn i'r Swyddog Safonau lunio cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad a'r rhesymau dros ei wneud, ac anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig at yr Aelod, yr Achwynydd, yr Ombwdsmon a llywydd Panel Dyfarnu Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

**Cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

29) Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ymhen 14 diwrnod ar ôl:

(a) diwedd y cyfnod pan ellir cyflwyno rhybudd o apêl dan y Rheoliadau, neu
(b) derbyn hysbysiad ynghylch casgliadau unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau, neu
(c) penderfyniad pellach y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl derbyn argymhelliad y tribiwnlys apêl dan y Rheoliadau,

pa un bynnag sy'n digwydd olaf, yn achosi cyhoeddiad adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad, a bydd yn anfon copi at yr Ombwdsmon, y Swyddog Monitro a'r Aelod ac yn cymryd camau rhesymol i anfon copi at yr Achwynydd.

30) Ar ôl derbyn adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau, bydd y Swyddog Monitro:

(a) yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor am 21 diwrnod ac yn sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd weld copïau yn rhad ac am ddim ar unrhyw adeg resymol yn swyddfeydd y Cyngor, lle bydd gan bobl yr hawl i wneud copïau o'r adroddiad neu dynnu detholiadau ohono pan fydd ar gael,

(b) yn darparu copi o'r adroddiad i unrhyw unigolyn ar gais, os yw'r unigolyn hwnnw'n talu'r swm y creda'r Cyngor ei bod yn rhesymol ei godi, ac

(c) yn cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus ymhen 7 diwrnod ar ôl derbyn adroddiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau, drwy osod hysbyseb mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal a thrwy unrhyw ddulliau eraill sy'n ymddangos yn

rhesymol i'r Swyddog Monitro, er mwyn hysbysu'r cyhoedd y bydd copïau o'r adroddiad ar gael yn unol ag is-baragraffau (a) a (b) uchod, a bydd yn nodi'r dyddiad (heb fod yn fwy na 7 diwrnod ar ôl hysbysu'r cyhoedd am y tro cyntaf) pan fydd y cyfnod 21 diwrnod yn cychwyn.

**Costau**

31) Nid yw'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn meddu ar unrhyw rymoedd i ddyfarnu costau na threuliau sy'n deillio o wrandawiadau neu unrhyw gyfarfodydd eraill.

Deddfwriaeth
Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Rhan III:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/part/III/chapter/III

Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau:

Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Gwasanaethau Democrataidd 2021.
Swyddog Monitro 20.12.21

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Ionawr 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell trwy gynhadledd fideo** |
| **TEITL:** | **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er Gwybodaeth** |

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol sydd wedi'i sefydlu i benderfynu ar doriadau honedig yn erbyn Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Chymuned, Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru. Mae Tribiwnlys Apêl a gynullwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru wedi ystyried apêl gan y Cyng. Gareth Baines yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 22ain Mehefin 2021 ei fod wedi torri cod ymddygiad Cyngor Tref y Waun a bod y gosb ganlynol yn cael ei rhoi:

1.1 Bod yr Apelydd yn cael ei atal dros dro fel Cynghorydd cymuned o Gyngor Tref y Waun am gyfnod o dri mis.

1.2 Y dylai'r Apelydd ymgymryd â hyfforddiant Cod Ymddygiad cyn gynted ag y bo modd.

1.3 Y dylai'r Apelydd anfon ymddiheuriad ysgrifenedig am yr achosion o dorri'r Cod at yr Achwynydd ac at Gadeirydd Cyngor Tref y Waun.

Gweler isod y ddolen i'r Apêl yn erbyn penderfyniad y gosb:-

https://paneldyfarnu.llyw.cymru/apw0032021-022at-cynghorydd-gareth-baines

https://paneldyfarnu.llyw.cymru/sites/adjudicationpanel/files/2021-12/apw-decision-gareth-baines-12-2021.pdf

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?**<br>**Ddim yn ofynnol**<br>**Os nad oes, dywedwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |
| **ARGYMHELLIAD:** | |

Nodi cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dana Jones |
| **Swydd:** | Swyddog Democrataidd a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 20/12/2021 |
| **Acronymau:** | |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad:** | **17 Ionawr 2022** |
| **Teitl:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau:**<br>**Ddisgrifiadau Rôl a Manyldeb Personol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau Etholedig ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion yr Awdurdodau Lleol. Mae'r disgrifiadau hyn sy'n amlinellu cyfrifoldebau a swyddogaethau rôl yr aelod etholedig yn cael eu cyflwyno fel awgrymiadau yn hytrach na chyfarwyddiadau. Mae gan yr Aelodau Etholedig a lleyg amrywiaeth eang o rolau neu gyfrifoldebau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni ac amcan y disgrifiadau hyn yw cynnig fframwaith a chanllawiau o ran y cyfrifoldebau hyn a'r ystod o weithgareddau y mae'r Aelodau yn ymgymryd â nhw.

Mae **Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person** ar gyfer Aelodau (Atodiad A) ynghlwm ac yn cynnwys y disgrifiadau rôl enghreifftiol ar gyfer rolau amrywiol gan gynnwys:

- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
- Aelod o'r Pwyllgor Safonau
- Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

Ystyirwyd y ddogfen ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion Awdurdodau Lleol yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 12 Hydref 2021. Dolen i'r adroddiad:-

https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s2103/adroddiad%20-%20disgrifiadau%20rolau%20Aelodau.pdf?LLL=1

Mae'r cofnod fel a ganlyn:-.

"Nodwyd mai'r bwriad yw bod y disgrifiadau rôl hyn yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith Datblygu Cymwyseddau Cynghorwyr Cymru. Nodwyd bod Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi bod ynghlwm â datblygu'r diwygiadau hyn ochr yn ochr â Swyddogion ac Aelodau sy'n cynrychioli holl Gynghorau Cymru.

Nododd yr Aelodau fod y disgrifiadau rôl yn cynnwys gweithgarwch gweithredol, gan ddweud bod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai Swyddogion o rôl yr Aelodau. Gwnaethant ofyn am i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r Swyddogion.”
.
Gellir hefyd cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor fel rhan o'r dudalen we ‘Canllaw i Ymgeiswyr’.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y ddogfen.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddogfen mewn Gweithdy ar 17/11/21.
.
Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y ddogfen sydd yn ymwneud â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (tudalennau 21-24 a 37-40).

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Nodi'r adroddiad er gwybodaeth** |
| **Atodiad:** | **Atodiad A – Disgrifiadau generig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o rolau Aelodau (Mehefin 2021)** |
| **Dogfennau cefndir:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 12 Hydref 2021** |

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

CLlLC • WLGA

# Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau

## Mehefin 2021

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion CLlLC yw hyrwyddo gwell llywodraeth leol, ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG

029 2046 8600 | www.clilc.cymru
@WelshLGA

Cyhoeddwyd: Mehefin 2021
Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Cefndir

Dyma set o ddisgrifiadau rôl a manylebau person cyffredinol ar gyfer aelodau etholedig. Maent yn berthnasol i bob awdurdod ac yn cael eu cynnig fel awgrymiadau yn hytrach na chyfarwyddiadau.

Mae'r disgrifiadau rôl yn pennu cyfrifoldebau a swyddogaethau'r aelod etholedig. Mae manyleb y person yn disgrifio'r rhinweddau a'r sgiliau y mae’r aelod eu hangen i gyflawni'r swydd, a gallant fod o gymorth wrth ystyried datblygiad personol.

Pan fo cynghorwyr yn cyflawni mwy nag un rôl, rhagwelir y bydd y disgrifiadau rôl yn cael eu cyfuno. Er enghraifft, byddai disgwyl i gadeirydd pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyflawni rolau Aelod Etholedig, Aelod Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd Trosolwg a Chraffu.

Dyluniwyd y disgrifiadau rôl hyn i’w defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith Datblygu Cymwyseddau Cynghorwyr <https://www.wlga.cymru/councillor-development-competency-framework> Cymru, sy’n disgrifio’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ymddygiad sy’n ofynnol gan Gynghorwyr.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau a swyddogion holl awdurdodau Cymru. Mae'n rhoi ystyriaeth i holl ddeddfwriaeth Cymru a'r DU sy'n effeithio ar rôl yr aelodau, gan gynnwys yn fwyaf diweddar, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cysylltwch â Sarah Titcombe, Swyddog Polisi a Gwelliant (Gwasanaethau Democratig) CLlLC.
Ffôn: 029 2046 8638. Ebost: sarah.titcombe@wlga.gov.uk

## Cynnwys


| Disgrifiad o'r Rôl: | Tudalen |
|---|---|
| ▪ Aelod Etholedig | 5 |
| ▪ Arweinydd (a Dirprwy) | 7 |
| ▪ Aelod Cabinet | 10 |
| ▪ Cadeirydd y Cyngor | 12 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 15 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 17 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio | 19 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Rheoleiddio | 20 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | 21 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Safonau | 23 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 24 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 27 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | 29 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | 32 |
| ▪ Arweinydd yr Wrthblaid | 35 |
| ▪ Arweinydd Grŵp Gwleidyddol | 37 |
| ▪ Diben a Rôl yr Aelod Eiriolwr | 41 |
| ▪ Disgrifiad o Rôl yr Aelod Eiriolwr | 43 |

## Disgrifiad o Rôl Aelod Etholedig

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cygnor Llawn
- I etholwyr eu ward

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

- Cynrychioli buddiannau'r ward.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn y ward a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, gan ymgymryd ag achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu â'r aelodau gweithredol, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i ofalu eu bod yn adnabod, yn deall ac yn diwallu anghenion y cymunedau lleol.
- Bod yn wyliadwrus a gwneud pob ymdrech i ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol.

**Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y cyngor**

- Cymryd rhan yng Nghyfarfodydd Llawn y Cyngor, gan ddod i benderfyniadau doeth a chytbwys a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor.
- Helpu unrhyw bwyllgor neu banel y maent wedi'u penodi iddynt i ddod i benderfyniadau doeth a chytbwys.
- Cadw at egwyddorion democratiaeth a chydgyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Hyrwyddo a sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon mewn perthynas â darparu gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)**

- Cynrychioli'r Cyngor ar unrhyw gorff allanol lleol y maent wedi'i benodi iddo.
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, gan hyrwyddo'r buddiannau cyffredin a'r syniad o gydweithio er lles y naill a'r llall.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor, y cyhoedd ac aelodau eraill y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, protocolau’r aelodau/swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.
- Rhoi sylw i ofynion Arweinydd y Grŵp (os oes yna un) mewn materion sy’n ymwneud ag ymddygiad.
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Datblygiad personol a phroffesiynol**

Mynd ati i adnabod anghenion unigol a chymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu y mae'r cyngor yn eu cynnig i'r aelodau.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl yr Arweinydd (a'i Ddirprwy)

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r Cyhoedd

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynnig arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
- Cynnig arweiniad o ran meithrin consensws gwleidyddol mewn perthynas â pholisïau'r cyngor.
- Pennu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned.
- Cynnig arweiniad cryf a chlir o ran cydlynu polisïau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau.

**Penodi'r Cabinet***

- Pennu'r portffolios priodol.
- Penodi aelodau etholedig priodol i bob portffolio.
- Dyrannu cyfrifoldebau i aelodau'r cabinet yn ôl eu galluoedd.
- Penodi'r Dirprwy Arweinydd.

**Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn Llysgennad iddo**

- Cynrychioli'r Awdurdod at safon uchel.  Cynrychioli'r Awdurdod mewn modd cadarn, cymwys a huawdl o fewn y Sir ac ar gyrff allanol, fel ei gilydd.
- Cynrychioli'r Awdurdod ym mhwyllgor cydlynu CLlLC a bwrdd partneriaeth rhanbarthol CLlLC.
- Cynnig arweiniad a chymorth i bartneriaethau a sefydliadau lleol.
- Cynrychioli'r Awdurdod ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol, fel bo'n briodol.

**Cynnig arweiniad o fewn y portffolio**

- Cyflawni rôl deiliad portffolio, gan roi sylw i ddiben a gweithgareddau'r rôl a manyleb rôl aelod etholedig.

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio ei gyfarfodydd**

- Sicrhau effeithiolrwydd y Cabinet drwy reoli'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a'i datblygu drwy'r amser.
- Gofalu bod gwaith y Cabinet yn bodloni amcanion polisïau cenedlethol.
- Cytuno ar amcanion gydag Aelodau'r Cabinet, a monitro cynnydd.
- Cynghori a mentora aelodau eraill o'r Cabinet yn eu gwaith.

- Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r Cyfansoddiad.
- Pan fo'r Arweinydd yn absennol, ei Ddirprwy ddylai gyflawni’r rôl hon.

**Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cabinet**

- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Cabinet er mwyn gofalu bod polisïau a fframwaith cyllidebol y Cyngor yn effeithiol a bod gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl leol.
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet ar ôl eu cyhoeddi.

**Cydweithio â swyddogion i arwain y sefydliad**

- Cysylltu â'r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd.
- Cydweithio â gweithwyr y Cyngor mewn perthynas â’i weledigaeth a’i gyfeiriad strategol, rolau’r swyddogion ym maes rheoli a datblygu materion polisi.

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Cynnig arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio bodloni nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddynt.
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
- Arwain y gymuned leol trwy ddangos dychymyg a chraffter.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i, a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Datblygu consensws

## Dirprwy Arweinydd

- **Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol**
- **Cynorthwyo'r Arweinydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen**

***** Yn ôl trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer model cabinet, gall naill ai'r Cyngor Llawn neu'r Arweinydd benodi Cabinet.  Yng Nghymru, yr Arweinydd sy'n penodi'r Cabinet dan y model hwn fel arfer.  Mae'r Disgrifiad Rôl hwn wedi'i ysgrifennu'n unol â hynny, gan nodi y gallai cynghorau amrywio'r trefniant hwn.

## Disgrifiad o Rôl Aelod Cabinet

### 1. Atebolrwydd

- I'r Arweinydd
- I'r Cabinet (drwy gydgyfrifoldeb)
- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Arwain portffolio**

- Cynnig cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio.
- Ennill parch y swyddogion hynny a helpu swyddogion i roi rhaglenni portffolio ar waith.
- Cynnig arweiniad yn y portffolio.
- Cysylltu â chadeirydd y pwyllgor craffu priodol a derbyn adroddiadau craffu yn ôl yr angen.
- Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad yn y portffolio.
- Cadw golwg ar sut y mae perfformiad yn cael ei reoli a pha mor effeithlon ac effeithiol yw'r portffolio.
- Bod yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol o fewn y Portffolio.*

**Helpu pennu agenda strategol a rhaglen waith ar gyfer y portffolio**

- Cydweithio â swyddogion i lunio dogfennau polisi strategol a statudol.
- Gofalu bod y Cabinet yn gweithredu yn ôl ewyllys wleidyddol y mwyafrif.
- Helpu llunio a gweithredu rhaglen waith strategol, yn wleidyddol ac yn statudol.
- Ymgynghori â budd-ddeiliaid yn ôl yr angen.
- Gofalu bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y portffolio yn gyfoes ac yn gywir.

**Cynrychioli'r portffolio**

- Cynrychioli'r portffolio mewn modd cadarn, cymwys a darbwyllol.
- Bod yn arweinydd amlwg mewn cyfarfodydd â budd-ddeiliaid.

**Darparu adroddiadau a rhoi cyfrif**

- Darparu adroddiadau i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Cabinet, cadeirydd y pwyllgor craffu priodol, y cyrff rheoleiddio a'r cyfryngau, fel bo'n briodol.
- Cytuno ar amcanion gyda'r Arweinydd a darparu adroddiadau cynnydd.
- Bod yn brif lefarwr gwleidyddol dros y portffolio.
- Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion portffolio.

**Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet**

- Dangos diddordeb ym mhortffolios aelodau eraill, a'u cefnogi.
- Cydnabod materion trawsbynciol neu faterion y mae nifer o aelodau'n gyd-gyfrifol amdanynt, a chyfrannu i'r materion hyn.

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Cynnig arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio bodloni nodau a blaenoriaethau cyffredin.
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
- Arwain y gymuned leol trwy ddangos dychymyg a chraffter.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaladwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol

***** Dim ond o dan drefniadau cyfansoddiadol, pan fo aelodau Cabinet unigol neu gyfuniad o aelodau Cabinet yn cael cyfrifoldeb unigol am wneud penderfyniadau ar ran y Weithrediaeth y mae hyn yn berthnasol.

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Cyngor
## Hefyd yn addas ar gyfer Maer* a Llywydd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynrychioli awdurdod democrataidd y Cyngor**

- Fel pennaeth seremonïol y Cyngor, bod yn amhleidiol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor.
- Cynrychioli'r cyngor mewn achlysuron dinesig a seremonïol.

**Cadeirio cyfarfodydd y cyngor**

- Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor er mwyn iddo allu cyflawni ei waith yn effeithlon.
- Gofalu bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn ôl ei Reolau Sefydlog.

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

- Gofalu bod pawb yn cadw at y Cyfansoddiad a dyfarnu am ei ddehongli os bydd angen.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

**Paratoi rhaglenni gwaith**

- Paratoi a rheoli rhaglen waith flynyddol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol (e.e. pennu cyllideb a Threth y Cyngor, a gwneud penodiadau).

### 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb

- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaladwyedd

**Is-gadeirydd**

- **Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd pan fo'n absennol.**
- **Cynorthwyo'r Cadeirydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.**

* Mae'r Disgrifiad Rôl hwn yn nodi dyletswyddau Cadeirydd neu Lywydd y Cyngor Llawn neu'r Maer wrth lywyddu Cyfarfodydd y Cyngor.
Nid yw’n rhoi manylion cyfrifoldebau llysgenhadol neu seremonïol ehangach y Maer.

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phenderfyniadau eglur.
- Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:
- Dynodi pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau eu bod yn ddigonol.
- Darparu adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r mater uchod.
- Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau y mae'r pwyllgor wedi'u dirprwyo.
- Ystyried adroddiadau y mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u paratoi.
- Datblygu strategaeth y cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu aelodau.
- Gofalu bod lefel resymol o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r aelodau yn unol â strategaeth yr Awdurdod ar gyfer eu datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau.
- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i aelodau.
- Cydweithio â'r eiriolwr cymorth a datblygiad aelodau pan fo'n berthnasol, i hybu rôl yr aelodau a mynnu'r cymorth a'r datblygiad angenrheidiol.
- Dangos agwedd onest a diduedd wrth wneud penderfyniadau, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Hyrwyddo rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

- Gweithredu fel llysgennad dros y pwyllgor GD, gan helpu pobl i ddeall y rôl.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
